I Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

| | |
|---|---|
| Y camau gweithredu a gymerwyd i hyrwyddo teithio llesol | **Adnewyddu mapio teithio llesol CNPT - i gydymffurfio â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**<br>Mae'r cyngor wrthi'n adolygu ei MRhTLl i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 31 Rhagfyr 2021. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad teithio llesol cyntaf rhwng 27 Tachwedd 2020 a 15 Ionawr 2021 a derbyniwyd 2642 o gyfraniadau. Mae'r broses adolygu ar gyfer y mapiau yn digwydd ar hyn o bryd, a bydd yn ystyried y canlynol: ymatebion o'r ymgynghoriadau, data cefndir, canlyniadau archwilio o ymweliadau safle, cysylltu pwyntiau cyrchfan allweddol a llwybrau cyfredol ar yr MRhTLl presennol.<br><br>**Hyrwyddo Cynlluniau a Monitro a Gwerthuso**<br>Mae ffotograffydd wedi cymryd ffotograffau hyrwyddo o'r llwybrau beicio sydd wedi'u gwella'n ddiweddar yng Nghastell-nedd a Phontardawe ar hyd lleoliadau allweddol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio yn ystod blwyddyn ariannol 21/22 i hyrwyddo'r canlynol: yr ymgynghoriad Teithio Llesol nesaf, ychwanegu at dudalennau gwe teithio llesol y cyngor ac unrhyw weithgaredd hyrwyddo angenrheidiol arall. Mae gwaith monitro a gwerthuso'r llwybrau yng Nghastell-nedd a Phontardawe wedi'i gwblhau.<br><br>**Cyswllt Mewnol** |

| | |
|---|---|
| | Cydweithrediad parhaus â chydweithwyr<br>o adrannau Cynllunio, Priffyrdd ac Addysg i annog hyrwyddo a darparu ar gyfer teithio llesol fel rhan o ddatblygiadau newydd.<br><br>**Tîm Diogelwch Ffyrdd**<br>Cynhaliodd y Tîm Diogelwch Ffyrdd nifer o weithgareddau i hyrwyddo Teithio Llesol, gan gynnwys:<br><br>- CycleCraft (Hyfforddiant beicio ar y ffyrdd): **6 ysgol, 119 o ddisgyblion**<br><br>- Addysg Dosbarth Cynradd: **27 ysgol, 4620 o ddisgyblion**<br><br>- Gwasanaethau (Cynradd): 0<br><br>- Ymwybyddiaeth Feicio (Blwyddyn 3 - Blwyddyn 6): **19 ysgol, 1246 o ddisgyblion**<br><br>- Hyfforddiant Sgwteri (pob oedran): **19 ysgol, 747 o ddisgyblion**<br><br>- Hyfforddiant Beiciau Cydbwysedd (Meithrin a Derbyn): 0<br><br>- Beicio Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 1 a 2): 1 ysgol, 20 disgybl<br><br>- Teithiau Cerdded Diogelwch Ffyrdd (pob oedran): 0<br><br>- Kerbcraft (Hyfforddiant i Blant sy'n Cerdded - Blwyddyn 2): 0<br><br>- Cwrs Hyfforddi Byr i Gerddwyr (6 wythnos o hyfforddiant): **33 ysgol, 903 disgybl**<br><br>- The Big Pedal (y mae CNPT yn cefnogi Sustrans): 0 |

| | |
|---|---|
| | - Cwis Blynyddol: Mae Diogelwch Ffyrdd yn cynnal cwis blynyddol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6, sy'n cael ei gynnig i bob ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot: 0<br><br>[Sylwer: mae ffigurau ysgolion yn seiliedig ar y flwyddyn academaidd Medi 2020 - Gorffennaf 2021].<br><br>[Sylwer: Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ebrill 2021, ni chaniatawyd i ymwelwyr fynd i mewn i unrhyw un o Ysgolion Castell-nedd Port Talbot oherwydd rheoliadau llym ynghylch y pandemig. Mae hyn yn amlwg wedi cael effaith sylweddol ar ffigurau hyfforddi Castell-nedd Port Talbot, wrth i'r rhan fwyaf o hyfforddiant ddigwydd o bell dros MS Teams. Ni chynhaliwyd llawer o ddigwyddiadau megis y Cwis Diogelwch Ffyrdd a digwyddiadau Cerdded/Reidio Sgwter i'r Ysgol oherwydd y cyfyngiadau o amgylch swigod yn cymysgu a chasgliadau mawr o bobl.] |
| Y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | ***Llwybr Teithio Llesol Bro Nedd (Cam 1)*** - Gwelliannau i'r Llwybr Teithio Llesol ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) rhwng Castell-nedd a Thonna (gan adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i gwblhau ar yr NCN rhwng Castell-nedd a Llansawel). Roedd y gwaith yn cynnwys lledu ac ailwynebu, cael gwared ar goed heintiedig a chlirio llystyfiant sy'n ymledu.<br><br>***Llwybr Teithio Llesol oddi ar y ffordd rhwng Castell-nedd ac Ysgol Gyfun Cefn Saeson*** - dyfarnwyd cyllid ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb - y bwriad oedd y byddai rhan o'r llwybr oddi ar y ffordd drwy ystâd y Gnoll; fodd bynnag, oherwydd pryderon am yr effaith ar |

| | |
|---|---|
| | fioamrywiaeth, cafodd yr astudiaeth ei gohirio ac ailddyrannwyd yr arian a ddyrannwyd i'r elfen hon o fewn y rhaglen.<br><br>***Llwybr Teithio Llesol Pontardawe (cam 3 o 3)*** - Roedd y gwaith yn cynnwys lledu'r llwybr teithio llesol, ailwynebu, clirio llystyfiant sy'n ymledu a chaffael cytundebau perchennog tir. Mae hyn yn cwblhau'r gwaith i'r llwybr teithio llesol o ffin y sir yn Nhrebanos trwy Bontardawe i Ystalyfera gan ddarparu llwybr wyneb oddi ar y ffordd.<br><br>***Llwybr Teithio Llesol Godre'r-Graig*** - roedd y cynllun yn cynnwys adeiladu rhan fach o Lwybr Teithio Llesol rhwng y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a Godre'r-Graig. Roedd y gwaith yn cynnwys cael caniatâd perchennog tir i wneud y gwaith, ail-wynebu'r llwybr, codi'r canllawiau ar y bont droed, disodli rhwystrau nad ydynt yn cydymffurfio a gwelliannau draenio.<br><br>***Llwybr amgen pont Newbridge Road*** – mae astudiaeth ddichonoldeb yn parhau i ddarparu dargyfeiriad Teithio Llesol ar gyfer Pont Newbridge Road, Port Talbot, sydd ar gau.<br>.<br>**Cyn y gwaith** – Mae hyn wedi cynnwys dichonoldeb, dylunio, trafodaethau tir ac ymgynghori/ymgysylltu ar wahanol lwybrau yn y sir. |
| Costau a gafwyd ar gyfer llwybrau teithio llesol a chyfleusterau newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau perthnasol yn y flwyddyn lawn flaenorol. | Dyfarnwyd £465,000 o gyllid craidd i Gyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer gwaith dylunio pellach, mân welliannau, trafodaethau tir a hyrwyddo cynlluniau. Yn ogystal, dyfarnwyd £515,000 ar gyfer Cam 1 Llwybr Teithio Llesol Bro Nedd – Castell-nedd i ardal Tonna. |

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth ganlynol yn darparu trosolwg o'r isadeiledd a gyflwynwyd yn y flwyddyn flaenorol:

| | |
|---|---|
| Gwariant awgrymedig ar gyfer llwybrau a chyfleusterau theithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig, a ariannwyd neu a ariannwyd yn rhannol gan drydydd partïon. | - £0 |
| Hyd y llwybrau newydd:<br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | - 0m |
| Hyd y llwybrau a wellwyd:<br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | - Llwybr Teithio Llesol Bro Nedd (Cam 1)<br>Defnydd a rennir 3100m<br>Llwybr Teithio Llesol Pontardawe (cam 3 o 3)<br>Defnydd a rennir 600m<br>Llwybr Teithio Llesol Godre'r-Graig<br>Cerdded 280m |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | - Tynnu mesurau rheoli mynediad (cam 2) = dileu 11 o rwystrau/gatiau nad ydynt yn cydymffurfio |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y bydd ar gael fel copi caled ar gais, yn unol ag arweiniad statudol y Ddeddf Teithio Llesol (rhifyn 2021).

Enw'r Prif Weithredwr: Karen Jones

Dyddiad y'i cyflwynwyd i Weinidogion Cymru: 1 Hydref 2021